**Criced 50/50 Cenedlaethol**

**Rheolau a Thaflen Sgorio**

**Mae'r gêm yn cynnwys:**

- 12 chwaraewr mewn carfan; 10 chwaraewr bob gêm
- Rhaid cael 2 Merch a 2 Bachgen yn chwarae ar bob adeg
- Blwyddyn 3 a 4 yn unig
- Mae pob person yn batio am 5 pêl
- Mae pob person yn bowlio am 5 pêl
- Hyd y gêm yw 50 pêl i bob tîm
- Mae pob person yn batio gyda partner ac yn rhedeg rhwng y wiced gyda'i gilydd
- Mae'r tîm sy'n maesu yn symud safleoedd yn glocwedd ar ddiwedd pob 5 pêl

**Batio**

- Mae pob pâr yn batio am 10 pêl – rhaid i'r ddau batiwr wynebu 5 pêl yr un
- Wrth fatio mae'n rhaid i chi redeg i sgorio eich rhediadau i gyd
- Does DIM ffiniau i ochr y cae (heb law bod angen gosod ffiniau am rhesymau iechyd a diogelwch wrth ystyried y lleoliad)
- Mae'n rhaid i'r batiwr redeg i'r stymps gyferbyn i ennill rhediad. Rhaid i'r chwaraewr neu bat y chwaraewr (rhaid i'r bat bod mewn dwylo y chwarewr), cyrraedd llinell y stymps er mwyn cyfri'r rhediad

**Bowlio**


- Mae pob person yn bowlio am 5 pêl
- Gellir bowlio pob pêl o dan y fraich neu dros y fraich (rhaid i'r fraich fod yn syth wrth bowlio dros y fraich) – gwiriwch yr adran sgorio i weld manteision o bowlio dros y fraich
- Ni ddylai'r bêl fownsio mwy na dwywaith o flaen y batiwr tra mae ef neu hi yn sefyll i aros am y bêl
- Bydd unrhyw bêl sy'n uwch na lefel yr ysgwydd wrth sefyll yn syth yn cael ei dyfarnu'n bêl gwallus
- Bydd unrhyw bêl sy'n glanio tu allan I'r cons naill ochr I'r stymps yn cael ei dyfarnu fel pel llydan – os mae'r batiwr yn taro'r pel, dydi o ddim yn cyfri fel pêl llydan

**Man Chwarae**

- Bydd dwy set o stympiau yn cael eu gosod 15 medr ar wahân
- Mi fydd dau gôn yn cael eu rhoi wrth ochr y stympiau i helpu nodi pêl lydan a dangos llinell i'r rhedwyr cyrraedd i sgorio rhediad.

**Maesu**

- Mae pob person yn symud safleoedd yn glocwedd wedi i bob 5 pêl gael eu bowlio i roi cyfle i bawb faesu ymhob safle




**Sgorio**

- Mae pob tîm yn dechrau ar 50 rhediad
- Tynnu 5 rhediad am unrhyw fatiwr sy'n cael eu bowlio, rhedeg neu dal allan, o dan yr amod bod y bowliwr wedi bowlio dros y fraich. Tynnu 3 rhediad os wnaeth y bowliwr taflu o dan y fraich.
- Mae pêl wallus neu bêl lydan yn cyfri' fel 2 rediad ychwanegol. Ni fydd pel ychwanegol yn cael ei bowlio o ganlyniad pêl wallus neu bel lydan, heb law am y pel olaf ym mhob batiad
- Os mae batiwr yn ennill rhediadau o pel wallus mae'r pwyntiau yn cael eu ychwanegu ar ben y 2 pwynt am y pel wallus

- Mae'n RHAID diweddu'r gêm gyda phêl gyfreithlon
- Gall batwyr ond cael eu rhedeg allan ar ochr y bowlwr (er tegwch i'r dyfarnwyr)
- Mae'r batiwr yn ddiogel unwaith mae ef/hi wedi pasio'r stympiau
- Os bydd dau dîm gyda'r un faint o bwyntiau, bydd y tîm sydd wedi sgorio'r mwyaf o rediadau yn mynd drwodd.
- Os bydd gêm gyn-derfynol neu derfynol yn gyfartal, yna dewisir yr enillwyr gan ddwy *super over* i bob tîm.